**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Cynllunio

**Dyddiad y cyfarfod** 16 Rhagfyr 2020

**Aelod / Swyddog Arweiniol** Y Cynghorydd M Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel

**Awdur yr Adroddiad** Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio

**Teitl** Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 - 2021: Adroddiad Monitro Blynyddol 2020

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am Gynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl): Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) 2020.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio am gynnydd o ran gweithredu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 sydd wedi'i fabwysiadu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys AMB 2020, gweler Atodiad 1, ac yn gwybod y bydd yn cael ei gyhoeddi wedyn ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Dan rwymedigaethau adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, fel y'i diwygiwyd, ac adran 37 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i lunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych 2006 – 2021 (CDLl) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref bob blwyddyn a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.2. Gan gydnabod yr anawsterau a wynebir gan awdurdodau a chymunedau lleol ym mhandemig Covid19, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 7 Gorffennaf 2020: "... ni fydd angen i Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMB) gael eu cyflwyno ym mis Hydref eleni. Rwy'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gryf i barhau i gasglu data, gan y bydd yn eu helpu i lunio a bod yn sail i waith datblygu polisïau a chynlluniau. Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol yn dymuno cyhoeddi AMB, mae croeso iddyn nhw wneud hynny wrth gwrs. Byddaf yn disgwyl i'r AMB ffurfiol nesaf gael ei gyflwyno ym mis Hydref 2021." (Atodir copi o'r llythyr gyda dogfen AMB 2020 yn Atodiad 4.)

4.3. Adroddwyd AMB drafft 2020 yng nghyfarfod y Grŵp Cynllunio Strategol ar 25 Hydref 2020. Ar ôl trafod y ddogfen, cynigwyd y dylid cyflwyno'r AMB i'r Pwyllgor Cynllunio a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor heb ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru. Y rheswm am hynny yw oherwydd bod diffyg data a gwybodaeth fanwl am bob polisi lleol a holl amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Fodd bynnag bydd yr holl Adroddiadau Monitro Blynyddol, a gynhyrchwyd ar gyfer y CDLl a fabwysiadwyd, yn rhan o'r sylfaen tystiolaeth ar gyfer y CDLl newydd, ac felly, bydd yn rhan o'r dogfennau a gyflwynir i'r Arolygiaeth Gynllunio a Llywodraeth Cymru i'w harchwilio yn ddiweddarach yn y broses gwneud cynlluniau.

4.4. Cafodd firws 'SARS-CoV-2' ym mis Mawrth 2020 effaith arwyddocaol ar argaeledd data. Mae awdurdodau lleol a chyrff cenedlaethol wedi canolbwyntio yr holl adnoddau sydd ganddynt ar gael i ymdrin â'r pandemig yn hytrach na pharhau â 'busnes yn ôl yr arfer'. Oherwydd pryderon am iechyd a diogelwch, ni chynhaliwyd unrhyw arolygon maes ym mis Ebrill a Mai 2020.

4.5. Wrth edrych ymlaen at AMB 2021, mae'n bosibl y bydd yn fwyfwy anodd i gydymffurfio â'r broses ffurfiol a chyflwyno dogfennau oherwydd efallai na fydd modd cofnodi'r holl wybodaeth angenrheidiol am gyfnodau hirach. Ni welwyd effeithiau llawn y pandemig cyn diwedd mis Mawrth 2020 sy'n golygu bod mwyafrif y data o'r cyfnod monitro presennol eisoes wedi cael ei gasglu a'i gofnodi gan adrannau unigol.

4.6. O'i gymharu â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol, nid yw perfformiad cyffredinol y polisïau unigol wedi newid. Mae nifer o bolisïau a oedd yn 'tanberfformio' wedi cael eu hamlygu yn y gorffennol, ac maent yn gysylltiedig

ag elfennau strategol Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych. Bydd y polisïau hyn yn parhau i gael eu nodi fel rhai sy'n 'tanberfformio', oni bai bod y Cyngor yn cwblhau proses adolygu'r CDLl yn llwyddiannus. Fel y polisïau a gynhwysir yn y CDLl, dim ond fel rhan o Adolygiad y CDLl y gellir newid y fframwaith monitro. Trwy wneud targedau neu amcanion presennol yn gydnaws â thystiolaeth a gofynion newydd bydd modd gwneud gwell asesiad o berfformiad polisi lleol.

4.7. Tabl 1: Polisïau lleol sy'n 'tanberfformio'

| Polisi Lleol | Sylw |
|---|---|
| CCC 1 – Diwallu anghenion tai'r Sir.<br><br>CCC 4, 8, 9 – Cynyddu nifer yr anheddau fforddiadwy a adeiladir yn y Sir. | Fel y nodwyd yn Adroddiad Adolygu'r CDLl (2017), mae Strategaeth Twf y CDLl a darparu tai'r farchnad a thai fforddiadwy yn methu ar y cyflenwad (mathemategol) gwael o anheddau. Cafodd targedau cyflenwi eu gosod ar sail ffigyrau 'Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd' Llywodraeth Cymru sydd, fe ymddengys, yn or-amcangyfrifon mawr. Mae'r Strategaeth a Ffefrir Ddrafft ar gyfer y CDLl nesaf 2018 – 2033 yn nodi ffigwr blynyddol o 218 o unedau; o'i gymharu â 750 uned ar gyfer Cyfnod 3 yn y CDLl a fabwysiadwyd.<br><br>Bydd y polisïau hyn yn cael eu hamlygu fel rhai sy'n 'tanberfformio' nes bo'r Strategaeth CDLl wedi'i hadolygu'n llwyddiannus, h.y. mabwysiadu CDLl newydd.<br><br>Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cyngor yn darparu tai fforddiadwy mewn nifer o ddulliau eraill heblaw am y CDLl. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, defnyddio grantiau tai cymdeithasol i roi cartrefi gwag mewn defnydd eto a gweithio gyda'n partneriaid tai. |
| CCC 10 – Diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr | Cynhaliodd y Cyngor Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mawrth 2017. |

| | |
|---|---|
| | Ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei wrthod ar gyfer safle preswyl ym mis Mawrth 2020, mae angen safleoedd ar gyfer defnydd preswyl a symudol. Mae'n rhaid i Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gynnal a'i gyflwyno i LlC. Fodd bynnag, mae LlC wedi dweud na all gwaith fynd ymlaen oherwydd cyfyngiadau pandemig Covid-19. Bydd yn rhaid i'r Cyngor fynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd. |
| CCC 6, 8, 9 – Cynnal a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi. | Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 10 (2018) yn annog awdurdodau lleol i nodi mentrau a strategaethau adfywio newydd yng nghanol ein trefi; gan edrych y tu hwnt i fanwerthu fel yr unig ddefnydd tir. Fodd bynnag, datblygwyd polisi lleol yn 2009/10, cyn y dirywiad difrifol mewn manwerthu. Mae'r trothwy adolygu polisi yn gysylltiedig â chyfraddau eiddo gwag o 15% neu uwch am 3 blynedd yn olynol yng nghanol unrhyw dref. Gall yr Adran Gynllunio helpu i ostwng niferoedd adeiladau gwag trwy ystyried cynigion amgen nad ydynt yn tanseilio amcanion polisïau lleol a chenedlaethol. |

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr eitem hon. Fodd bynnag mae Cynllun Datblygu Lleol CSDd yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol canlynol trwy nodi ble a faint o ddatblygiadau newydd a fydd yn digwydd yn y Sir hyd at 2021: Datblygu'r economi lleol; Sicrhau mynediad at dai o safon uchel; a Moderneiddio'r Cyngor i ddarparu arbedion effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni fydd nodi cynnwys yr adroddiad hwn yn arwain at unrhyw gostau nac effeithiau i wasanaethau eraill.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes Asesiad o'r Effaith ar Les wedi'i gynnal oherwydd na cheisir penderfyniad am bolisi, strategaeth, gweithdrefnau gweithio na rhaglen y Cyngor. Gofynnir i Aelodau nodi'r cynnwys yn unig. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ddogfen ystadegol sy'n adlewyrchu perfformiad polisi lleol fel rhan o'r CDLl sydd wedi'i fabwysiadu.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trafododd Aelodau'r Grŵp Cynllun Strategol AMB 2020 a nodi ei gynnwys ar 25 Hydref 2020.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol yn codi o Adroddiad Monitro Blynyddol CDLl 2020

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â nodi cynnwys AMB 2020.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r ddyletswydd statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol wedi ei osod yn Adran 76 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

11.2. Mae Rhan 7 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 yn nodi'r gofyniad i gyflwyno'r AMB terfynol i Lywodraeth Cymru.

11.3. Nodwch lythyr Gweinidog Cymru, gweler Atodiad 4 AMB 2020, ynglŷn â chanslo'r gofyniad i gyflwyno AMB 2020 i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2020.